# ATODLEN 3

## Ffactorau neu Feini Prawf Ychwanegol y caniateir eu Cymryd i Ystyriaeth mewn Fformiwla Awdurdod Lleol o dan Reoliad 18

**36.** Meintiau dosbarthiadau iau y cyfyngwyd ar y nifer ynddynt i uchafswm o 30 o ddisgyblion: caiff yr awdurdod gynnwys swm sy'n adlewyrchu unrhyw gynnydd mewn gwariant a dynnwyd o ganlyniad uniongyrchol i amodau sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw grant arbennig a wnaed yn unol ag adran 88A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 neu unrhyw drefniadau am gymorth ariannol a ddarperir yn unol ag adran 14 o Ddeddf 2002 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael gwelliant mewn safonau ysgol drwy ostwng maint y dosbarthiadau.